# Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ionawr, 2016

DRAFT

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Alun Mummery (Yn y Gadair)<br><br>**Yr Awdurdod Lleol**<br><br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd y Cyngor)<br><br>**Y Sector Gwirfoddol**<br><br>Mr Stephen Williams (Age Cymru Gwynedd a Môn)<br>Mr Andrew M Hughes (Medrwn Môn) |
| **WRTH LAW:** | Mrs Annwen Morgan (Prif Weithredwraig Gynorthwyol - CSYM)<br>Mr John R.Jones (Prif Swyddog - Medrwn Môn)<br>Ms Lyndsey Williams (Lleisiau Cymunedol - Medrwn Môn)<br>Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor - CSYM) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Alwyn Rowlands, Mr Islwyn Humphreys (Samariaid),<br>Ms Eleri Lloyd Jones. |

---

### 1. CADEIRYDD

Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, etholwyd y Cynghorydd Alun Mummery yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mrs Annwen Morgan i'w chyfarfod cyntaf o Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol. Ar ran y Pwyllgor, cydymdeimlodd y Cadeirydd â Mr J.Huw Jones, y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ei brofedigaeth o golli ei dad.

Cyn dechrau busnes y cyfarfod, cafodd y Pwyllgor hanes byr o sut y cafodd Neuadd Bentref Penysarn ei sefydlu a’i datblygu.

### 2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

3. **COFNODION CYFARFOD 14 HYDREF, 2015**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a gynhaliwyd ar 14 Hydref, 2015 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Yn codi o'r cofnodion -

- Gofynnodd Prif Swyddog Medrwn Môn am eglurhad ar statws yr Adroddiad Terfynol ar yr Adolygiad o'r Trydydd Sector ac a fyddai'r canfyddiadau'n cael eu rhannu gydag ef. Cadarnhaodd Arweinydd y Cyngor bod dadansoddiad manwl o fuddsoddiad yr Awdurdod Lleol yn y Trydydd Sector wedi cael ei wneud gan y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 ac y byddai Prif Swyddog Medrwn Môn yn cael cyfle i'w weld.
- Cadarnhaodd Prif Swyddog Medrwn Môn fod sesiwn friffio ar gyfer y trydydd sector ar drefniadau tendro wedi ei chynnal gyda Swyddog Caffael y Cyngor ac wedi bod o fudd. Fodd bynnag, roedd bylchau yn parhau yng ngwybodaeth y sector, yn enwedig mewn perthynas â chaffael.
- Dywedodd Prif Swyddog Medrwn Môn ei fod wedi cyfarfod â'r Prif Weithredwr mewn perthynas â defnydd posibl o gronfeydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol. Mae Bwrdd Medrwn Môn yn awyddus i ddatblygu syniadau a gofynnir am gyfarfod arall maes o law. Mae'n bwysig hefyd bod y Cyngor yn cael sicrwydd bod y sector yn gwneud defnydd effeithiol o'r cyllid y mae'n ei dderbyn a'i fod yn gallu dangos bod ei drefniadau llywodraethu yn gadarn.
- Côd Ymarfer Cyllido - nodwyd bod y Brif Weithredwraig Gynorthwyol (Partneriaethau) yn adolygu trefniadau partneriaeth y Cyngor yn eu cyfanrwydd ar hyn o bryd ac y bydd statws y Côd yn eglurach yn dilyn yr adolygiad. Fodd bynnag, awgrymwyd bod y Côd Cyllido yn cael ei anfon at y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 am sylwadau.

**CAM GWEITHREDU YN CODI: Prif Weithredwraig Gynorthwyol i ddilyn i fyny mater y Côd Ymarfer Cyllido gyda'r Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151.**

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant – nodwyd y pwysau sy'n debygol o ddod yn sgil y ddeddf. Nodwyd hefyd mai'r hyn sy'n newydd yn y Ddeddf yw'r pwyslais a roddir ar y dimensiwn llesiant ac ar ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y person. Mae'r Trydydd Sector yn gweithio gyda'i bartneriaid ynghylch y defnydd gorau o'i adnoddau ac i ddatblygu gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth fel nad yw problemau bach yn troi'n rhai mawr sydd angen ymyrraeth arbenigol. Mae ffocws ar waith ataliol. Nodwyd y bydd yn rhaid ailystyried sut mae gofal yn cael ei ddarparu fel bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion yr unigolyn mewn modd sy'n cyd-fynd â dymuniadau'r unigolyn ac mewn ffordd sy'n gwneud y defnydd gorau o'r hyn sydd ar gael yn y gymuned. Mewn rhai achosion, gallai hyn gynnwys mesurau syml megis cymorth gyda siopa neu fynd i'r afael ag unigrwydd, sef materion nad oes angen pecynnau gofal drud ar eu cyfer o

reidrwydd.  Mae’n golygu darganfod beth yw anghenion yr unigolyn ac mae’n ymwneud cymaint â mabwysiadu ymagwedd a meddylfryd gwahanol ag ydyw â defnyddio adnoddau mewn ffordd fwy effeithlon. Cyfeiriwyd at brosiect peilot yng Ngwynedd sy'n golygu rhoi’r sgwrs  'Yr hyn sy’n bwysig ‘ ar waith ac fe nodwyd a thrafodwyd enghreifftiau o sut mae hyn yn gweithio.

- Gallu a Gwydnwch y Trydydd Sector - nodwyd bod Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys wedi cynhyrchu adroddiad ar Allu a Gwydnwch y Trydydd Sector ac y cytunwyd yn y cyfarfod blaenorol, yng ngoleuni'r gostyngiadau cyllido, i ymchwilio i fanteision ymgymryd ag ymarfer tebyg ar Ynys Môn. Dywedodd Prif Swyddog Medrwn Môn, er bod y strwythur cefnogi o ran Compact a Chôd  Ariannu wedi ei sefydlu, yr hyn sydd angen ei ddatblygu yw strategaeth ynglŷn â disgwyliadau'r Cyngor ar gyfer y sector yn yr hinsawdd bresennol. Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol i gynrychiolwyr Medrwn Môn gynnal deialog gyda'r Brif Weithredwraig Gynorthwyol (Partneriaethau) ynghylch beth yw disgwyliadau'r Cyngor a sut y gall y Trydydd Sector eu cyflawni a allai, yn ei dro, fod o gymorth gyda’r broses gyllido.

**CAMAU GWEITHREDU YN CODI:**

- **Prif Weithredwraig Gynorthwyol (Partneriaethau) i ddilyn i fyny gyda Medrwn Môn ar ddichonoldeb cynnal Adolygiad o Allu a Gwydnwch y Trydydd Sector ar Ynys Môn.**
- **Prif Weithredwraig Gynorthwyol (Partneriaethau) i gwrdd â chynrychiolwyr o Medrwn Môn i drafod ac egluro disgwyliadau'r Cyngor ar gyfer y sector.**

## 4. CYLLIDEB 2016/17

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar sefyllfa'r Gyllideb a oedd wedi ei lleddfu i raddau gan ostyngiad a oedd yn llai na'r disgwyl yn y Grant Cynnal Refeniw ac eglurodd y goblygiadau o ran y bwlch ariannu, yr arbedion sydd raid wrthynt a’r arbedion oedd wedi'u nodi hyd yn hyn. Cadarnhaodd yr Arweinydd bod y gostyngiad yn y cyllid i’r Trydydd Sector yn llai nag y nodwyd gyntaf. Bydd adroddiad ar y gyllideb yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 1 Chwefror, 2016 cyn llunio cynigion cyllidebol terfynol y Pwyllgor Gwaith ar 7 Mawrth, 2016 i'w cyflwyno i'r Cyngor llawn ar 10 Mawrth, 2016. Rhoddodd yr Arweinydd wybod i’r cyfarfod hefyd am hanfod ymateb y cyhoedd i'r ymgynghoriad ynghylch y gyllideb.

Tra'n nodi bod rhai cyrff wedi gweld toriad yn eu cyllid, cydnabu cynrychiolwyr y trydydd sector nad yw'r sefyllfa mor ddifrifol ag yr ofnwyd yn wreiddiol ond roeddent yn parhau i deimlo y gellid gwella’r  broses trwy gynnal deialog cliriach gyda sefydliadau a thrwy egluro’n well sut y gwneir penderfyniadau yngylch gostyngiadau arfaethedig.  **Cytunwyd i nodi'r sefyllfa.**

DRAFT

## 5. LLEISIAU CYMUNEDOL

Rhoddodd Ms Lyndsey Williams ddiweddariad i'r Pwyllgor am weithgareddau Lleisiau Cymunedol mewn perthynas â'r canlynol -

- Y Gyllideb
- Horizon
- Panel Dinasyddion
- Sgriwtini
- Ymgynghoriad Trydydd Sector Medrwn Môn ar Gyllideb 2016/17 a'r ymatebion a gafwyd gan fudiadau trydydd sector
- Cyd-Fwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori

Tynnwyd sylw hefyd at adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru - Astudiaeth Gwella Llywodraeth Leol Cymru Gyfan: Cyllido Gwasanaethau Trydydd Sector yn 2015-16 gan Gynghorau. **Cytunwyd y byddai Prif Swyddog Medrwn Môn yn anfon copi o'r adroddiad at Brif Weithredwraig Gynorthwyol (Partneriaethau) a Swyddog Caffael y Cyngor.**

## 6. RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynwyd a nodwyd Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod o Ionawr i Awst 2016.

## 7. CYNLLUN DATBLYGU - COMPACT

Awgrymodd Prif Swyddog Medrwn Môn ac fe’i nodwyd, fod angen rhoi ystyriaeth i sefydlu cerrig milltir allweddol ar gyfer busnes y Pwyllgor ar draws ei dri chyfarfod bob blwyddyn e.e. ymgynghori ar y gyllideb; adolygu effeithiolrwydd y Côd Cyllido a'r Compact a Strategaeth y Trydydd Sector, a hynny er mwyn sicrhau ei fod yn cadw ar ben y materion ac yn ymwybodol o'r pethau sy'n gweithio'n dda a’r rheini nad ydynt.

## 8. CYFARFOD NESAF

Cytunwyd y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor a drefnwyd ar gyfer dydd Gwener, 8 Gorffennaf, 2016 yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Gymunedol Bodorgan.

**Y Cynghorydd Alun Mummery**
**Yn y Gadair**

DRAFT